

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Cofnodion y Cyfarfod

Dydd Iau 9 Medi, 2021

Ar-lein drwy Microsoft Teams, 6pm

Yn Bresennol: Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Karen Burch (KB) - Dirprwy-gadeirydd
Richard Leggett (RL)
Mo Rapley (MR)
David Stacey (DS)

Ysgrifennydd - Caroline Ferguson (CF) – Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad
Cyngor Sir Caerfyrddin

Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd

Y Cynghorydd Hazel Evans (HE) - Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd
Sean Brown (Sylwedydd)
Hywel Manley (CNC)
Samara Hicks (Teithio Llesol CSC) Cydgysylltydd Moderneiddio Trafnidiaeth

Ymddiheuriadau: Aelodau:

Paul Barrett;
Geoff Williams (wedi methu â chysylltu drwy'r rhyngwrwyd)
Jillie Gardner (wedi methu â chysylltu drwy'r rhyngwrwyd)

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:

Stephen Pilliner – Pennaeth Trafnidiaeth a Phrifyrdd CSC
Neil Thomas – Uwch-reolwr Hamdden Awyr Agored CSC
Phil Morgan (CNC)

*Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin

**Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru

EITEM	CMAU GWEITHREDU
<p>Eitemau 1 - Croeso ac Ymddiheuriadau</p> <p>Estynnodd MH groeso i bawb i'r cyfarfod</p>	
<p>Eitem 2 - CYNLLUN TEITHIO LLESOL – Ymgynghoriad</p> <p>Gwnaeth MH gyflwyno Samara Hicks, Cydgysylltydd Moderneiddio Trafnidiaeth, CSC</p> <p>Cynnig ar gyfer Map Rhwydwaith Teithio Llesol i ddangos yr holl lwybrau defnydd a rennir, fel gofyniad sylfaenol.</p> <p>Mae'r holl sylwadau sy'n ymwneud â llwybrau newydd a llwybrau presennol sydd wedi'u huwchraddio yn unol â'r sylwadau a dderbyniwyd hyd at ddiwedd mis Gorffennaf bellach yn berthnasol.</p> <p>Aros i sylwadau ymgynghori ddod i law ar ail ran yr ymgynghoriad hyd at ddiwedd mis Hydref, 2021. Bydd y rhain yn cael eu hystyried mewn perthynas â gwella llwybrau presennol ac yn benodol ardaloedd adeiledig.</p> <p>Mae cynnig i ddefnyddio Llwybr Cwm Gwendraeth fel llwybrau ar gyfer Teithio Llesol at ddibenion gwaith a dyma sail derbyn arian gan Lywodraeth Cymru i symud ymlaen. Felly, bydd yr holl sylwadau mewn perthynas â symud hwn yn ei flaen yn cael eu gwerthfawrogi.</p> <p>Nodwyd mai'r brif sail ar gyfer gwaith fydd y teithiau byrrach sy'n ymarferol i'w gwneud drwy gerdded neu feicio a bod y llwybrau ar y cyfan yn fwy trefol i gyflawni hyn.</p> <p>Nodwyd hefyd bod yr ymgynghoriadau'n gweithio'n agos gyda'r holl adrannau sydd â diddordeb yn CSC fel nad yw hawliau tramwy cyhoeddus, yn enwedig llwybrau troed, yn cael eu peryglu ar draul defnyddwyr eraill.</p> <p>Gofynnodd MH yn benodol i'r Fforwm Mynediad Lleol fod yn rhan o unrhyw ymgynghoriad cynnar ar yr hawliau tramwy cyhoeddus a allai gael eu peryglu</p> <p>KB – nodwyd y byddai'n ddefnyddiol i haen ar y map dynnu sylw at lwybrau troed yn benodol, gan nad yw'r mapiau presennol yn glir i bawb y bydd unrhyw lwybr beicio newydd ar yr un llwybr troed ag y maent wedi arfer ei ddefnyddio.</p> <p>SH - Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei ystyried.</p> <p>CF - Atgoffwyd bod y map yn uchelgeisiol ac na fyddai pob llwybr yn cael ei ddatblygu ac yr ymgynghorir ar yr holl newidiadau arfaethedig.</p>	<p>Pawb</p> <p>SH</p> <p>Pawb</p>

MH – gofynnodd i bawb fod yn ymwybodol o'r llwybrau yn eu hardal eu hunain, a diolchodd i Samara am ei hamser a'i chyflwyniad effeithlon.

Eitem 3 - Materion Cyfoeth Naturiol Cymru

MH – Adnewyddu arwyddion Tread Lightly – angen cysylltu â Phil ynglŷn â hyn a chysylltu â swyddogion Priffyrdd mewn perthynas ag arwyddion newydd ar gyfer Fforest Brechfa.

HW – pwy sy'n codi'r arwyddion – CSC? Ai dyma'r ddeddfwriaeth o hyd?

CF – ie, er bod dirprwyo'n bosibl

MR – yn hapus i fwrw ymlaen cyn gynted ag y bo modd – cyllid a gwirfoddolwyr ar gael ac yn barod i fynd.

MH – Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol yn pryderu am yr Ŵyl Enfys anghyfreithlon – mae swyddogion diogelwch brwdfrydig wedi troi defnyddwyr cyfreithlon i ffwrdd o ddefnyddio'r llwybrau a'r cilffyrdd, a chodir pryderon ynghylch hyn a mewnbwn a chydweithrediad CNC ynghylch hyn.

HM – Cynhaliwyd yr Ŵyl ar dir cyfagos i dir ystâd CNC, roedd pobl wedi parcio ar gyfer yr Ŵyl ar dir ystâd. Mae CNC wedi derbyn, pe bai cwynion yn dod i law, yna roedd hyn yn gamgymeriad ar ran y swyddogion diogelwch ac ymddiheurodd HM ar ran CNC. Hefyd, gofynnwyd am adroddiad manylach ar wallau fel y gellid craffu ar y rhain a dysgu gwersi, er mwyn symud ymlaen.

MH – cytunodd i anfon yr adroddiadau manwl a'r cwynion ymlaen, er mwyn caniatáu i'r uchod ddigwydd.

MR – methodd â gwneud sylw (rhyngrwyd gwael)

KB - a yw'n bosibl sefydlu polisi gyda'r heddlu, CSC a CNC i ddelio ag unrhyw achosion pellach fel hyn, yn y dyfodol

HM - Ydy. Byddai unrhyw gynigion i wella'r sefyllfa y tro nesaf yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr i'r cyfarfod yn cytuno y byddai'r cynnig hwn yn ffordd dda ymlaen i ddangos undod.

MR – dywedodd ei bod hi a'i grŵp defnyddwyr wedi defnyddio'r goedwig ac nad oedd wedi wynebu unrhyw wrthwynebiad, mewn gwirionedd roedd y swyddog diogelwch wedi bod o gymorth mawr

CF – Dywedodd CSC na allai'r adran Briffyrdd gau'r briffordd, gan nad oedd gan yr adran y pwerau i wneud hynny.

MH

<p>HM - dywedodd fod yr holl lwybrau drwy'r goedwig bellach ar agor</p> <p>MH - Diolchodd i HM am ei gyfraniad</p>	
<p>Eitem 4 - Camau Gweithredu yn Codi o'r Cofnodion</p> <p><u>Cais ar gyfer Mharc Coetir y Mynydd Mawr</u></p> <p>MH – mae'r cais hwnnw bellach wedi'i dynnu'n ôl oherwydd gwrthwynebiad lleol sylweddol.</p> <p><u>Map digidol o Dir Comin gan gynnwys ardaloedd ar gyfer marchogaeth ceffylau</u></p> <p>CF - ffeil heb ei derbyn o hyd gan Andrew Patterson. Bydd yn mynd ar drywydd hyn eto.</p> <p><u>Beicio Caniataol ar Lwybrau Troed.</u></p> <p>MH – Dim ymateb hyd yma ar ôl gofyn am ragor o wybodaeth am hyn</p> <p>Hazel – trafodaethau parhaus ynglŷn â chyfreithlondeb hyn. Bydd yn rhoi diweddariad pan fydd hyn yn bosibl.</p> <p><u>Prosiect Mapio Ffyrdd Gwyrdd TRF</u></p> <p>Heb wneud cynnydd ar hyn eto</p> <p><u>Parcio ym Mhen-bre</u></p> <p>Hazel – Gorchymyn Parcio yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref ac ymgynghorir arno i ganfod pa gerbydau y gellir caniatáu iddynt barcio ac yma mha ardal.</p> <p>SB – Gofyn am archwilio'r lle parcio sydd wedi gordyfu i'r chwith o'r rhwystrau, i weld a ellir ei ddefnyddio ar gyfer parcio ychwanegol</p> <p><u>Hyrwyddo teithiau cerdded i ddarganfod Sir Gâr</u></p> <p>RL – Dim ond yn Saesneg y mae fideos ar gael – dim cyfieithiad Cymraeg. CF – Bydd yn trosglwyddo'r mater hwn yn ôl i TG i wirio hyn.</p> <p><u>CAMSWeb ac arolwg rhwydwaith 100%</u></p> <p>Diweddariad yn y cyfarfod nesaf.</p> <p><u>Cofnodion y Fforwm Mynediad Lleol i'w cynhyrchu'n gyflymach</u></p> <p>CF – byddwn yn gwneud ein gorau</p> <p><u>E-bost at Steve Pilliner</u></p> <p>MH - dim ymateb</p>	<p>CF</p> <p>HE</p> <p>CF</p> <p>CF</p> <p>CF</p> <p>CF</p>

<p>Hazel – Blaenoriaethu Prosiectau'r Dyfodol – lle bo'n bosibl – ie</p> <p><u>Perthi ac Ymylon – tymor torri</u></p> <p>DS – byddai o fudd i feicwyr, beicwyr ar y ffordd yn benodol, os gellid glanhau toriadau perth.</p>	
<p>EITEM 5 – Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Strategaeth Farchogaeth</p> <p>CF – cyfanswm o 540 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd cymorth gan David Jenkins wrth lunio adroddiad yn gwerthuso'r ymatebion. Dyddiad diwygiedig 1 Tachwedd, 2021 bellach ar waith. Bydd yn cyflwyno'r adroddiad cyn gynted â phosibl. Bydd yn anfon e-bost at bob aelod i ofyn am gymorth ar ffurf is-grŵp i helpu i gyflwyno'r adroddiad i'r Fforwm Mynediad Lleol ar ffurf ddrafft.</p>	<p>CF</p>
<p>Eitem 6 – Prosiectau 2021-2022</p> <p>CF - rhoddodd amlinelliad o waith prosiect AIG, sef grant gwella cyffredinol ar draws y sir gan CNC, sydd tua hanner ffordd drwodd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cilffyrdd Cydweli – heb ddechrau gan nad ydym mewn sefyllfa i symud ymlaen eto. • Llwybr Amldefnydd Cil-y-cwm Cam 1 – aros i un neu ddau o arolygon gael eu cwblhau; mae un ohonynt ar Fynydd Mallaen, mae angen gwirio ardal fawnog gyda System Leoli Fyd-eang (GPS) i ddod o hyd i lwybr diogel ar draws yr ardal. • Llwybrau i Bobl Llanybydder – nid ydym yn arwain ar hyn, mae'n brosiect gwella a arweinir gan wirfoddolwyr ar rwydwaith llwybrau troed o amgylch pentref Llanybydder ar y cyd â Cherddwyr Cymru. Mae hyn wedi'i ohirio gan yr oedi wrth benodi'r Swyddog Rhanbarthol newydd, sydd bellach yn ei swydd, felly dylai hyn allu symud ymlaen. • Categori A – mae'r prosiect newydd ddechrau. <p>Fel o'r blaen, bydd pob prosiect yn cael ei hyrwyddo ar ôl ei gwblhau gan sicrhau bod y cyhoedd yn clywed ac yn gweld yr hyn yr ydym wedi'i wneud.</p> <p>Yn gyffredinol, roedd yr Aelodau'n falch o glywed beth sydd ar y gweill ar y rhwydwaith.</p>	

Eitem 7 - Adroddiad Cilffyrdd Cydweli

MH – ymddiheurodd am anfon yr adroddiad y tu hwnt i'r Fforwm Mynediad Lleol. Nid oedd yn ymwybodol nad oedd ar gael i'r cyhoedd.

CF – Dywedwyd i beidio â phoeni, ei bod wedi achub y blaen ar yr ail gam.

MH - nid yw'n glir yn yr adroddiad beth fydd nod y rhwydwaith?

CF – Mae wedi dod yn brosiect oherwydd y degawd o broblemau sydd gennym gyda'r llwybrau hyn, mewn perthynas â dosbarthiad. Nid yw'r rhan fwyaf o'r Cilffyrdd, er bod y rhwydwaith yn helaeth, yn gallu ymdopi â cherbydau heddiw. Mae'r llwybr sydd wedi'i nodi fel llwybr cylchol yn ein galluogi i agor y rhwydwaith hyd eithaf ein gallu, i'r graddau gorau a mwyaf diogel.

MH – yn pryderu y bydd Gorchymyn Rheoleiddio Traffig yn cael ei roi arnynt ar unwaith, eu bod yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr Priffyrdd a'u gadael i ddirywio, hefyd y pryderon y gallai gwahanol gymdeithasau sydd am ddefnyddio'r rhwydwaith ddechrau ymglyfreitha, pe bai'r rhwydwaith yn cael ei israddio.

CF – yn croesawu cyfraniad yr holl gymdeithasau sydd â diddordeb, i symud y prosiect yn ei flaen. Mae cyllid wedi'i ddyrannu i ddefnyddio'r llwybrau a nodwyd,

SB (Gwestai) – Aelod o GLASS a TRF ac mae'n defnyddio beiciau modur amrywiol i deithio ar hyd y cilffyrdd ac yn defnyddio e-feic yn bennaf. Mae wedi gwneud gwaith clirio a gwaith arolygu ei hun, er mwyn cadw'r rhwydwaith i fynd. Mae wedi gwneud fideo ac mae wedi sicrhau bod hyn ar gael i'w weld. Cyflwynodd adroddiad llawn ar yrru ar gilffyrdd amrywiol yn arbennig y Cilffyrdd yng Nghydsweli a'r cyffiniau.

MH – diolchodd i Sean am ei gyflwyniad a chefnogodd adroddiad a fideo SB. Gwnaed cais i'w rhannu.

CF – diolchodd i SB am ei gyfraniad a bydd yn ymchwilio gyda TG i rannu ffeiliau.

MR – Yn cyd-fynd â'r blaenorol ac yn ailadrodd y cynnig i gefnogi'r prosiect ac mae'n aelod o TRF. Mae'n cadarnhau y bydd TRF yn herio unrhyw Orchymyn Rheoleiddio Traffig y gellir ei roi ar waith.

Gwnaeth sawl aelod drafod gwerth neu ddiffyg gwerth Gorchymynion Rheoleiddio Traffig.

CF – mae'n rhaid cael arwyddion clir i sicrhau bod pob defnyddiwr cilffordd yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau a osodir ar y Cilffyrdd i ddiogelu unrhyw fuddsoddiad yn y rhwydwaith.

MH – bydd y Fforwm Mynediad Lleol yn drafftio nodyn cyngor ffurfiol ochr yn ochr â'r adroddiad ar brosiect Cilffyrdd Cydweli i gyflwyno barn y Fforwm Mynediad Lleol (bod yn ofalus, ceisio cyngor a siarad â'r defnyddwyr).

MH – estyn gwahoddiad i SB aros yn y cyfarfod a diolch iddo am ei gyfraniad.

Eitem 8 – Y Wybodaeth Ddiweddaraf am CAMSweb

CF

MH

CF - CAMSweb, mae'r amserlen wedi llithro ychydig, ond bron yn barod i'w lansio a dylai fod ar waith yn fuan.

Eitem 9 – Arolwg Rhwydwaith 100%

CF - rydym wedi cael cyfarfodydd cychwynnol gyda'r Cerddwyr ynghylch: hyfforddiant pwrpasol ac yn aros i'w Swyddog Rhanbarthol newydd ddechrau yn ei swydd a bydd yn cysylltu â hi yn ystod yr wythnosau nesaf.

Eitem 10 - Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

CF – Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cael ei adolygu eleni, gan ein bod wedi dewis cynnal adolygiad bob dwy flynedd. Ar hyn o bryd, bydd hyn yn cael ei wneud yn ar ddechrau'r flwyddyn nesaf.

MH – erbyn mis Mawrth gobeithio?

CF – O ystyried bod amserlen y Strategaeth Farchogaeth wedi llithro, gobeithio y bydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cael ei adolygu ym mis Ionawr a'r Polisi Gorfodi erbyn y Gwanwyn.

Polisi Gorfodi - mae hyn o fewn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a bydd yn dod ar ôl yr adolygiad.

Mae'r Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus eisoes yn ymchwilio i hyn.

RL – pa amserlen yr ydym yn edrych arni ar gyfer gorfodi?

CF – Gyda'n Hierarchaeth Rhwydwaith newydd, y gobaith yw y gallwn flaenoriaethu gorfodi'n effeithiol yn awr, bydd cyflwyno polisi gorfodi yn gwneud y prosesau'n fwy effeithlon a chyson.

Eitem 11 - Ethol Fforwm Mynediad Lleol newydd

CF – wedi cysylltu â'r Tîm Cyfathrebu, ac mae'r hysbyseb i'r wasg, y meini prawf ar gyfer dethol a'r ffurflen gais i gyd wedi cael eu gweddnewid ac maent yn barod. Y gobaith yw dechrau'r ymarfer recriwtio o fewn yr wythnosau nesaf a chynnal yr ymarfer ddiwedd mis Medi a thrwy gydol mis Hydref a'r dyddiad cau yw 1 Tachwedd. Efallai y bydd hynny'n cael ei wthio ymlaen ychydig os yw'r nifer sy'n cymryd rhan yn iself. Y bwriad yw cyflwyno hyn yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr, ar gyfer ethol Swyddogion.

MH – A yw'r Fforwm Mynediad Lleol presennol yn parhau nes i'r un newydd gael ei ethol?

CF – Na, mae'r Fforwm Mynediad Lleol yn cael ei ddiddymu ar ôl y cyfarfod hwn, bydd Fforwm yn cael ei benodi ym mis Rhagfyr, ceir ail gyfarfod i ethol Cadeirydd a dirprwy Gadeirydd.

MH – Cynnig y dylid parhau i weithredu tan gyfarfod mis Rhagfyr gan fod prosesau ymgynghori'n parhau, gellir parhau fel hynny'n anffurfiol. MH yn cynnig, RL yn eilio

<p>Yn gyffredinol, cytunodd yr Aelodau i'r amserlen hon a'r dull gweithredu hwn.</p>	
<p>Eitem 12 - Unrhyw Fater Arall</p> <p>MH - <u>Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Fforwm Mynediad Cenedlaethol</u> - Ian Maberley (Fforwm Mynediad Lleol Bannau Brycheiniog) yw'r Cadeirydd erbyn hyn a Tony Rooney (Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro) yw'r Dirprwy Gadeirydd</p> <p>Ymgynghoriad parhaus â CNC ynghylch <u>Datganiadau Ardal</u></p> <p>Datganiad diddorol gan Jane Evans ynghylch <u>dyddiad cau 2026</u> ar gyfer Cofrestru priffyrdd hanesyddol (newydd)? Nid yw'r dyddiad cau wedi'i roi ar waith yng Nghymru ac mae bwriad i ddiddymu'r ddarpariaeth.</p> <p>Yn gyffredinol, cytunodd yr Aelodau fod hyn yn newyddion cadarnhaol.</p> <p>MH - Cymeradwyo <u>Adroddiad Blynyddol</u> y Fforwm Mynediad Lleol ar gyfer 2020 Hefyd, mynd ar drywydd cyfieithiad 2019 a'i roi ar y wefan. Eiliwyd gan DS</p> <p>KB- A oes amserlen ar gyfer <u>Diwygio Mynediad</u>?</p> <p>CF – Dim byd ar hyn o bryd, adroddiad gyda'r Gweinidog o hyd.</p>	<p>CF</p>
<p>Eitem 11 - Y Cyfarfod Nesaf</p> <p>MH - 9 Rhagfyr 2021? I'w chadarnhau</p>	